

# Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru

## Datganiad i'r Wasg

I'w ryddhau ar unwaith

02920 491818 | 07815 071164

[www.neu.org.uk](http://www.neu.org.uk)

[www.Facebook.com/nationaleducationunion](https://www.facebook.com/nationaleducationunion)

[www.Twitter.com/@NEUnion](https://www.twitter.com/@NEUnion)



9<sup>fed</sup> Tachwedd 2019

## Dim digon o dystiolaeth bod Consortia Rhanbarthol yn cael effaith gadarnhaol ar ysgolion

Mae undeb addysg fwyaf Cymru yn credu nad oes digon o dystiolaeth bod Consortia Rhanbarthol yn cael effaith gadarnhaol ar ysgolion o ran gwella safonau ar gyfer disgyblion. Mae'r Undeb Addysg Cenedlaethol yn dweud bo aelodau yn dal i brofi beirniadaeth negyddol, feirniadol sy'n gostwng morâl a pharch yn hytrach na beirniadaeth gefnogol, adeiladol sy'n canolbwyntio ar y positif ac yn adeiladu morâl sy'n anochel yn effeithio ar addysgu a dysgu mewn ysgol.

Mae'r polisi, gyda chefnogaeth athrawon o bob rhan o Gymru yng nghynhadledd yr undeb yng Nghasnewydd, yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddangos eu bod wedi ymchwilio i effaith y Consortia Rhanbarthol ar Addysg yng Nghymru ar ysgolion, staff a dysgwyr.

Dywedodd **David Evans**, Ysgrifennydd Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru:

“Mae'r Consortia Rhanbarthol wedi tyfu oherwydd yr angen am weithio Rhanbarthol yng Nghymru, ond mae ein haelodau'n iawn i dynnu sylw at yr angen i sicrhau eu bod yn cyflawni eu swyddogaethau, ac i ofyn am adroddiad effaith.”

“Byddwn yn arolygu ein haelodau yn ystod y misoedd nesaf am effaith y Consortia Rhanbarthol. Mae'r Consortia Rhanbarthol yn defnyddio llawer iawn o gyllid, ac mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn gallu dangos yr effaith gadarnhaol y maent wedi'i gael.”

GORFFEN

Roedd testun y cynnig i gynhadledd ar y mater hwn fel a ganlyn

## **Cynnig 7. Gweithio Rhanbarthol**

Mae Cynhadledd Cymru yn cydnabod bod y Consortia Rhanbarthol wedi ystyried y ffaith bod angen newid, gyda gwaith a phrosiectau traws-ranbarthol a newidiadau i'w strwythur. Fodd bynnag, teimlwn nad yw hyn yn ddigonol.

Cred Cynhadledd Cymru nad oes digon o dystiolaeth bod Consortia Rhanbarthol yn cael effaith gadarnhaol ar ysgolion o ran gwella safonau ar gyfer disgyblion. Mae athrawon yn dal i brofi beirniadaeth negyddol, feirniadol sy'n gostwng morâl a pharch yn hytrach na beirniadaeth gefnogol, adeiladol sy'n canolbwyntio ar y positif ac yn adeiladu morâl sy'n anochel yn effeithio ar addysgu a dysgu mewn ysgol. Credwn, am y swm o arian y mae'r consortia hyn yn ei gostio i'w redeg, mae yna ffyrdd gwell o gefnogi ysgolion.

Mae Cynhadledd Cymru yn galw ar yr Adran Weithredol trwy Bwyllgor Cymru i:

1. Ofyn i Lywodraeth Cymru ddangos eu bod wedi ymchwilio i effaith y Consortia Rhanbarthol ar Addysg yng Nghymru ar ysgolion, staff a dysgwyr.
2. Arolygu aelodau am eu barn ar yr effaith.
3. Sefydlu gweithgor i ymchwilio i fodelau gweithio amgen nad oes angen cost a biwrocratiaeth ychwanegol ar Awdurdodau Lleol.

### **Cysylltiadau'r wasg:**

Mae'r Undeb Addysg Genedlaethol yn gyfuniad o Gymdeithas yr Athrawon a Darlithwyr (ATL) ac Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT), a ffurfiwyd ar 1 Medi 2017. Gweler y manylion cyswllt isod am gymorth:

***Cyswllt: Stuart Williams, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru, Tŷ Sinnott, 18 Llys Neifion, Ffordd Vanguard, Caerdydd CF24 5PJ. Ffôn: 029 20491818. Symudol: 07795 295 355.***

***e-bost: [stuart.williams@neu.org.uk](mailto:stuart.williams@neu.org.uk)***

### **Nodyn i olygyddion:**

- Mae'r Undeb Addysg Cenedlaethol yn sefyll ar gyfer dyfodol addysg. Mae'n dod â lleisiau athrawon, darlithwyr, staff cefnogi ac arweinwyr sy'n gweithio mewn ysgolion a cholegau cyaledig ac annibynnol ynghyd i ffurfio'r undeb addysg fwyaf yng Nghymru.
- Mae'r Undeb Addysg Cenedlaethol yn gysylltiedig â Chyngres Undebau Llafur (TUC), Pwyllgor Undeb Llafur Ewrop ar gyfer Addysg (ETUCE) ac Addysg Ryngwladol (EI). Nid yw'n gysylltiedig ag unrhyw blaid wleidyddol ac mae'n ceisio gweithio'n adeiladol gyda'r holl brif bleidiau gwleidyddol.